

Annwyl

## **ATISN 17112 – Ymarferion Pandemig**

Diolch am eich e-bost at Lywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth, a ddaeth i law ar 2 Chwefror, mewn perthynas ag ymwneud Llywodraeth Cymru a GIG Cymru â'r ymarferion parodrwydd ar gyfer pandemig a gynhaliwyd yn y blynyddoedd 1999-2019. Rydych wedi nodi bod gennych ddiddordeb yn Ymarfer Alice 2016 yn benodol, ond eich bod hefyd am gael gwybodaeth am yr holl ymarferion. Gwnaethoch chi ofyn am y canlynol:

- 1. A ystyriwyd fel rhan o'r ymarferion hyn oblygiadau nifer uchel o farwolaethau? Yn arbennig, a ystyriwyd sut y gellid cynnal angladdau a gwaredu cyrff dan amgylchiadau o'r fath?*
- 2. A ymgynghorwyd mewn unrhyw ffordd â grwpiau ffydd yng Nghymru am yr oblygiadau iddynt nhw o weithredu mewn pandemig, a'u gallu i ddarparu gwasanaethau angladd a bugeiliol mewn sefyllfa o'r fath?*
- 3. Os yr ymgynghorwyd â grwpiau ffydd, pa ymatebion a dderbyniwyd a pha ddefnydd a wnaed o'r ymatebion hynny?*
- 4. A gyhoeddwyd yn fewnol neu'n gyhoeddus, canlyniadau'r ymarferion hyn? Os do, sut y gellir eu cyrchu?*

## **Ein Hymateb**

Mae ymwneud Llywodraeth Cymru a'r GIG â'r ymarferion parodrwydd ar gyfer pandemig a gynhaliwyd yn y blynyddoedd 1999-2019 wedi ei nodi yn Atodiad 1.

- 1. Mae'r wybodaeth yn Atodiad 1 yn cynnwys gwybodaeth a gedwir a dolenni at adroddiadau a gyhoeddwyd ar rai o'r ymarferion parodrwydd sy'n cynnwys y goblygiadau pe bai nifer mawr o farwolaethau.*
- 2. Rydym wedi adolygu gwybodaeth a gedwir yn unol â pholisi cadw gwybodaeth Llywodraeth Cymru ond nid ydym wedi llwyddo i ddod o hyd i wybodaeth a gofnodwyd sy'n ymateb i'r cais hwn.*

*Gwneir y trefniadau ymarferol ar gyfer claddu cyrff yn ystod pandemig ar y lefel leol gan yr awdurdodau lleol gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill o dan Fforymau Cydnherthedd Lleol. Dros y cyfnod hwn, y Swyddfa Gartref sydd wedi arwain yn gyffredinol ar gyhoeddi canllawiau ar reoli marwolaethau, gyda Swyddfa'r Cabinet (Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Posibl) yn arwain ar farwolaethau ychwanegol o dan y Bwrdd Parodrwydd ar gyfer Ffliw Pandemig ar ôl 2016. Cyhoeddwyd canllawiau yn Lloegr ar gymunedau ffydd a ffliw pandemig hefyd ([1219379.pdf](https://publishing.service.gov.uk/1219379.pdf) ([publishing.service.gov.uk](https://publishing.service.gov.uk)))*

3. *Gweler yr ymateb i gwestiwn 2*

4. *Mae dolenni ar gael yn Atodiad 1*

### **Y camau nesaf**

Os ydych yn anffodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd,  
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: [rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru](mailto:rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru)

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes iddi fod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

## **Ymwneud Llywodraeth Cymru a GIG Cymru â'r ymarferion parodrwydd ar gyfer pandemig a gynhaliwyd yn y blynyddoedd 1999-2019**

Yn ystod 1999-2019, gwahoddwyd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i gymryd rhan yn yr ymarferion canlynol a arweiniwyd gan Lywodraeth y DU:

### **a. Ymarfer Shared Goal – 2006**

Un o fentrau Adran Iechyd Llywodraeth y DU oedd Ymarfer Shared Goal, gyda'r nod o ymarfer a gwella parodrwydd ar gyfer fflw pandemig yn y DU. Roedd yr ymarfer ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth, Swyddfeydd y Llywodraeth yn Ne-ddwyrain a Dwyrain Canolbarth Lloegr ar y pryd, a'r Llywodraethau Datganoledig yn bennaf. Nod yr ymarfer oedd ysgogi ailasesiad o gynlluniau wrth gefn domestig a rhyngwladol ar sail data newydd o Sefydliad Iechyd y Byd a ffynonellau eraill.

O safbwynt Llywodraeth Cymru, defnyddiwyd yr ymarfer, a gynhaliwyd dros ddau ddiwrnod, er mwyn profi rolau Gweinidogion wrth wneud penderfyniadau yn ystod pandemig fflw, yn ogystal â rolau'r pwyllgorau lefel uwch, y timau sy'n ymdrin â'r cyfryngau a thimau ac unigolion allweddol sy'n gweithio yng Nghanolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) (ECC(W)). Roedd yn profi'r trefniadau cydgysylltu rhwng llywodraethau datganoledig a'r llywodraeth ganolog, cyn ac yn ystod pandemig, yn ogystal â'r rhyngweithio rhwng gwahanol lefelau, llifau gwybodaeth, gwaith modelu amser real a mynediad at gyngor arbenigol amserol, cyn ac yn ystod pandemig. Drwy ymarfer y polisiau a'r cynlluniau a ddatblygwyd dros y flwyddyn flaenorol, nod yr ymarfer oedd datgelu unrhyw fylchau yn y trefniadau ymateb roedd angen mynd i'r afael â nhw.

### **b. Ymarfer Idris – 2007**

Cynhaliwyd Ymarfer Idris cyn *Ymarfer Winter Willow*. Ymarfer cyfathrebu oedd hwn, gyda'r nod o brofi'r mathau o gyfathrebu y byddai'n debygol o gael eu hysgogi pe bai pandemig Cam 5 Sefydliad Iechyd y Byd yn cael ei ddatgan. Roedd yr ymarfer yn canolbwyntio ar y gweithdrefnau a'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r pecyn gwybodaeth i'r cyhoedd ar y cam hwn, ac yn arbennig y camau y byddai angen eu cymryd o ran hysbysiadau a chyhoeddusrwydd y telir amdano, a sut y dylid ymdrin ag unrhyw drafodaeth bosibl am y gwaith hwn yn y cyfryngau. Cafodd y gwersi a ddsygwyd o'r ymarfer eu defnyddio yn ystod y prif ymarfer a gynhaliwyd ar ôl hynny, sef Winter Willow.

### **c. Ymarfer Winter Willow – 2007**

[YMARFER WINTER WILLOW – Ionawr / Chwefror 2007 \(iaem.org\)](http://www.iaem.org)

Ymarfer cenedlaethol mawr ar fflw pandemig oedd hwn, a oedd yn cynnwys cyfranogwyr o bob rhan o'r DU ar lefel leol a rhanbarthol yn ogystal â lefel y llywodraeth. Nod yr ymarfer oedd gwella gallu'r DU i reoli effeithiau pandemig fflw drwy ymarfer a dilysu polisiau ymateb a'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y tair lefel hyn, a rhyngddynt.

Cymerodd pob Fforwm Cydnerthedd Lleol yng Nghymru ran yn Rhan 2 o'r ymarfer, gyda phob un yn pennu Grŵp Cydgysylltu Strategol i ystyried materion o ran parhad busnes, cyfrifoldebau polisi allweddol a rhagdybiaethau cynllunio y cytunwyd arnynt. Ar yr un pryd, cwblhaodd Llywodraeth Cymru ymarfer profi Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru)

(ECC(W)) a chynnull ynghyd Bwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru, gan gysylltu ag Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet (COBR).

Daeth nifer o faterion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw i'r amlwg yn sgil senario'r ymarfer, megis adolygiadau o wrthfesurau meddygol a'r ymateb iechyd; rhagdybiaethau cynllunio megis y polisi ar gau ysgolion; y polisi ar reoli'r meirw; cyngor iechyd y cyhoedd; materion rhyngwladol a strategaeth gyfathrebu'r Llywodraeth.

Nodwyd, yn yr adroddiad yn y ddolen, y camau nesaf i'w cymryd mewn cysylltiad ag agweddau gweithredol ar gyfraddau marwolaethau uchel yn ystod cyfnodau brig pandemig:

- Mae'r Swyddfa Gartref wrthi'n datblygu polisiâu ar gyfer rheoli'r meirw yn ystod pandemig fflw. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ag arweinwyr mewn gwahanol gymunedau ffydd a'r angen i ddangos y parch a'r urddas sy'n ofynnol. Bydd hyn yn arwain at lunio canllawiau diwygiedig ynghyd â dogfennau tebyg ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig.
- Bydd y gwaith hwn yn cysylltu â gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn Adran Iechyd Llywodraeth y DU ar yr agweddau ymarferol ar symleiddio'r broses ardystio marwolaethau.

#### **d. Ymarfer Cygnet ac Ymarfer Cygnus – 2016**

Ymarfer seiliedig ar drafodaeth ar gyfer y sector iechyd oedd Ymarfer Cygnet, a gynhaliwyd yng nghanol Llundain ym mis Awst 2016 fel rhan o'r gweithgareddau i baratoi ar gyfer Ymarfer Cygnus. Nod yr ymarfer oedd rhoi cyfle i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ystyried yr ymatebion iechyd a gofal cymdeithasol strategol, cenedlaethol i frig o achosion o fflw pandemig cyn y prif ymarfer.

Cymerodd y llywodraethau datganoledig ran yn y drafodaeth hon, ond roedd prif argymhellion yr ymarfer at sylw Llywodraeth y DU, a Public Health England a'r Adran Iechyd yn benodol. Fodd bynnag, roedd y gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad hefyd wedi rhoi materion i Llywodraeth Cymru eu hystyried cyn Ymarfer Cygnus ac ar ôl hynny.

#### **[Llywodraeth y DU - Adroddiad Ymarfer Cygnus - adroddiad fersiwn hygyrch](#)**

Ymarfer fflw pandemig Haen 1 y DU oedd hwn, gyda'r Gweinidogion yn cymryd rhan yn llawn yn Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet. Yng Nghymru, dechreuodd yr ymarfer ar 14 Hydref gyda gweithdy GIG Cymru a oedd yn ystyried y trefniadau cenedlaethol a lleol ar gyfer storio a dosbarthu gwrthfesurau iechyd. Parhaodd ar 18 Hydref gyda gweithdy yng Nghanolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) a oedd yn cynnwys grwpiau amlasiantaethol o bob un o'r pedwar Fforwm Cydnerthedd Lleol yng Nghymru.

Cynhaliwyd y prif ymarfer ar 19 a 20 Hydref gyda'r Prif Swyddog Meddygol yn arwain ar gyfarfodydd y swyddogion yn Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Gweinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Gweinidogion yn Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet. Gan na chynhaliwyd ymarfer prawf ar gyfer cyfarfodydd Gweinidogion Iechyd y pedair gwlad, cafodd y camau gweithredu y byddai pob un o'r pedair gwlad yn eu cymryd mewn ymateb i sefyllfa pandemig eu pennu yn y cyfarfodydd hyn yn Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet, gan sicrhau ffordd gyson o weithredu er mwyn lleihau'r risg i iechyd y DU gymaint â phosibl.

**e. Ymarfer Alice – Chwefror 2016 – swyddog o Lywodraeth Cymru yn bresennol fel sylwedydd.**

[Report-Exercise-Alice-Middle-East-Respiratory-Syndrome-15-Feb-2016.pdf \(cygnusreports.org\)](https://www.cygnusreports.org/Report-Exercise-Alice-Middle-East-Respiratory-Syndrome-15-Feb-2016.pdf)

Ymarfer modelu pandemig **Syndrom Anadlol y Dwyrain Canol (MERS-CoV)** oedd yr ymarfer hwn, a gynhaliwyd gan swyddogion Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2016.

Bu Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfrifol am gomisiynu a chynnal yr ymarferion canlynol a oedd yn cynnwys GIG Cymru yn ystod y cyfnod o dan sylw:

**f. Ymarfer Taliesin – 2009**

Nod Ymarfer Taliesin, a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2009, oedd profi Cynllun Ymateb Cymru Gyfan a chynlluniau lleol ar gyfer fflw pandemig ledled Cymru. Roedd yr ymarfer yn rhan o waith Swyddfa'r Cabinet i feithrin cydnerthedd yn erbyn pandemig fflw. At y diben hwn, ariannodd nifer o ymarferion 'Safon Aur' ledled rhanbarthau Lloegr ac yng Nghymru. Nod yr ymarfer oedd profi'r gwahanol gynlluniau drwy gynnal ymarfer byw ledled Cymru. Yn Lloegr, cynhaliwyd yr ymarfer mewn un ardal Fforwm Cydnerthedd Lleol ym mhob rhanbarth, ond yng Nghymru cynhaliwyd yr ymarfer ar draws pob un o'r pedair ardal Fforwm Cydnerthedd Lleol ar yr un pryd, yn ogystal â Chanolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) a Phwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru. Roedd yr ymarfer yn profi penderfyniadau strategol y Grŵp Cydgysylltu Strategol amlasiantaethol a'r ffordd roedd y Ganolfan Gydgysylltu Strategol ategol yn gweithredu. Roedd hefyd yn profi'r trefniadau ar gyfer rhoi Cynllun Ymateb Cymru Gyfan ar waith drwy Delegam Ymarfer Taliesin a gynhaliwyd cyn y prif ymarfer. Cynhaliwyd nifer o ymarferion cysylltiedig llai, mwy lleol ar yr un pryd gan ddefnyddio'r senario canolog. Dyma'r ymarfer mwyaf o'i fath ar y pryd i gael ei gynnal yng Nghymru.

**g. Ymarfer Cygnus (Cymru yn unig) – 2014**

O ganlyniad i'r risg uchel parhaus o bandemig fflw, cytunwyd y byddai ymarfer Haen 1 y DU yn cael ei gynnal yn ystod 2014 i asesu parodrwydd ar lefel genedlaethol a lleol. I ddechrau, trefnwyd y byddai 11 o Fforymau Cydnerthedd Lleol yn cymryd rhan ar lefel leol yn Lloegr, ac, yng Nghymru, cytunodd pob un o'r pedwar Fforwm Cydnerthedd Lleol i gymryd rhan.

Roedd Cam 1 o'r ymarfer ym mis Mai yn canolbwyntio ar y cam asesu a chanfod mewn pandemig, a swyddogion iechyd Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG oedd yn ymwneud ag ef yn bennaf. Cynhaliwyd gweithdy amlasiantaethol yng Nghymru hefyd ddechrau mis Mehefin i ystyried materion ac i godi ymwybyddiaeth o beth fyddai'n digwydd yn ystod y camau hyn.

Cafodd y brif elfen drawslywodraethol o Ymarfer Cygnet, a drefnwyd ar gyfer yr wythnos yn dechrau 13 Hydref, ei gohirio yn dilyn cais gan Brif Weinidog y DU i'r Adran Iechyd gynnal ymarfer byw fel mater o frys er mwyn sicrhau bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer rheoli unrhyw achosion o haint y feirws Ebola yn y DU.

Gohiriwyd yr ymarfer ar lefel y DU, ond aeth yr ymarfer ar lefel leol rhagddo yng Nghymru, gyda chyfarfodydd o'r pedwar Grŵp Cydgysylltu Strategol a Phwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru. Achubwyd ar y cyfle yn ystod y cyfarfodydd hyn hefyd i ystyried yr ymatebion yng Nghymru i Ebola, ac roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bresennol er mwyn rhannu gwybodaeth am y risg a rhoi cyngor iechyd y cyhoedd.